# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E.G.Davies, Vaughan Hughes, Eric Jones, R.Dylan Jones, E.Schofield |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Rheolydd Polisi a Strategol (Carol Owen) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolydd Sgriwtini (Bev Symonds)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr G.O.Jones, H.E.Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Gill Lewis (Ymgynghorydd Cyllid Strategol), Y Cynghorydd Bryan Owen (Arweinydd y Cyngor), Y Cynghorydd W.J.Chorlton (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd: Mr Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Strategol), Mr Arwel Jones (Uwch Reolydd - Comisiynu Corfforaethol), Y Cynghorwyr Peter Reid, Ioan Thomas, Ena Lloyd (Swyddfa Archwilio Cymru) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan groesawu'n arbennig y gynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd a Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn bresennol i arsyllu a gwerthuso'r trafodaethau sgriwtini fel rhan o Astudiaeth Gwella Sgriwtini gan Swyddfa Archwilio Cymru. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Cynghorydd G W Roberts, OBE am adferiad buan yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty'n ddiweddar. Cyn cychwyn ar y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd am ganiatâd y Pwyllgor i newid trefn y busnes fel yr oedd wedi ei amlinellu ar y rhaglen a gyhoeddwyd. Cytunodd yr Aelodau i'r cais.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 10 Rhagfyr, 21 Rhagfyr, 2012 a 28 Ionawr, 2013 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

**3 MATERION CYLLIDEBOL**

**3.1 Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2012/13 – Chwarter 2 2012/13**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynghylch sefyllfa'r gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2012/13 fel yr adroddwyd i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2013.

Crynhodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) hanfod yr adroddiad trwy ddweud nad oedd newid o bwys ers y sefyllfa yn Chwarter 2. Mae Rhan 2 yr adroddiad yn nodi'r gwariant hyd yma a'r elfennau risg lle mae'r rheini'n berthnasol. Mae Adran 5 yr adroddiad yn cyfeirio at y prif risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r prosiectau mawr a gyllidir gydag arian o Ewrop. Mae'r gwariant hyd at ddiwedd Rhagfyr yn £8.7m ac mae'r cyfanswm derbyniadau cyfalaf am yr un

cyfnod yn £0.6m (heb gynnwys derbyniadau o fân-ddaliadau sydd wedi eu neilltuo i'w defnyddio i'r pwrpas hwn yn unig).

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**DIM CAM GWEITHREDU YN CODI**

**3.2 Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2012/13 – Chwarter 3 2012/13**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ynghylch sefyllfa'r gyllideb refeniw ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2012/13 fel y cafodd ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2013.

Ymhelaethodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y tueddiadau cyllidebol mewn perthynas â'r gwasanaethau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd gwasanaeth hynny a oedd yn gorwario a'r camau a gymerwyd eisoes ac/neu sydd wedi eu cynllunio i roi sylw i'r diffygion ac i geisio dod â'r cyllidebau yn ôl dan reolaeth. Cyfeiriodd y Swyddog at gyllidebau corfforaethol a chyllidebau risg gorfforaethol fel y manylwyd arnynt yn rhan 2 yr adroddiad ac ymhelaethodd ar y sefyllfa mewn perthynas â rhai o'r prif themâu dan y cyllidebau hyn. Aeth ymlaen i adrodd ar y sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni arbedion a'r cronfeydd wrth gefn, gan gyfeirio'n benodol at ddiswyddiadau. Soniodd am y posibilrwydd y gellid rhyddhau cyllideb o £1m nad oedd wedi ei dyrannu yn amodol ar benderfyniad i'r perwyl gan y Cyngor Sir, a hynny er mwyn cefnogi'r gyllideb refeniw.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Cyllid Strategol, o gofio bod y Pwyllgor Sgriwtini hwn wedi bod yn wyliadwrus yn monitro lefel y gwariant a'i fod wedi cael adroddiadau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ar y cynnydd hyd yma, roedd yn siomedig gyda rhai agweddau ar y datganiad trydydd chwarter oherwydd bod diffyg wedi ei ragweld o hyd at £1m ar gyfer y flwyddyn. Mae rhai canlyniadau i'r gyllideb ar gyfer 2013/14 a bydd yr aelodau yn dymuno sicrhau bod prosesau digonol wedi eu sefydlu i fonitro cyllideb 2013/14.

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r adroddiad ac yn y drafodaeth ddilynol ar y wybodaeth a gyflwynwyd, tynnwyd sylw at y materion isod fel materion o bryder y mae angen eu dilyn i fyny -

- Mynegwyd pryderon ynghylch arbedion o £30k gyda phatrolau croesi plant ysgol, yn arbennig yng nghyd-destun diogelwch ffyrdd ar gyfer plant. Roedd yr Aelodau yn dymuno gwybod yn union sut roedd yr arbedion hyn yn cael eu gwneud o ran faint o batrolau croesi plant ysgol oedd yn cael eu heffeithio a'r ysgolion dan sylw.
- Roedd pryderon hefyd bod yr incwm o'r meysydd parcio yn £55k yn is na'r targed. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a holwyd a oedd hyn yn adlewyrchu patrwm.
- Gofynnwyd hefyd beth oedd y risg o ran peidio â gwireddu incwm a ragamcanwyd. Cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Lles Addysg fel maes yr oedd yr Arolygiad Estyn wedi nodi bod gwendidau ynddo yng nghyd-destun gwella cynhwysiant a lefelau presenoldeb yn yr ysgolion. Holwyd am y trefniadau ar gyfer cyllido'r gwasanaeth hwn yn y tymor hir.
- Cyfeiriwyd at y rhaglenni trawsnewid sylweddol sydd wedi cychwyn yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a gofynnwyd a oedd modd cyflawni ailstrwythuro ar y raddfa a ragwelwyd mewn modd amserol er mwyn osgoi colledion cyllidebol y flwyddyn nesaf.
- Cyfeiriwyd at swm o £1.7m yr oedd gan yr Awdurdod hawl i gael ei fenthyg dan gynllun LIC ar gyfer gwelliannau priffyrdd, ac yn benodol at welliannau arfaethedig i'r lôn o Lannerch-y-medd i Glorach y rhoddwyd gwybod y byddent yn cael eu gwneud ym mis Mehefin 2012. Yn wyneb y ffaith nad oedd y cynllun wedi ei weithredu, gofynnwyd beth oedd wedi digwydd i'r arian a pha ddefnydd arall oedd wedi cael blaenoriaeth dros y cynllun a gafodd ei gyhoeddi. Cafwyd cwestiynau pellach ynghylch cost y gwaith uwchraddio ar wal a ffordd o Garmel i Lannerch-y-medd.

  Eglurodd y swyddogion y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a godwyd fel oedd yn briodol.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

**Y Rheolydd Sgriwtini i drefnu i'r materion isod gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Sgriwtini priodol am sylw fel rhan o'r flaenraglen waith ar gyfer sgriwtini –**

- **Cyllido tymor hir y Gwasanaeth Lles Addysg**
- **Peidio â chyflawni'r lefelau incwm a ragamcanwyd o'r meysydd parcio**
- **Ymarferoldeb cyflawni rhaglenni trawsnewid yn y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn amserlen a fydd yn osgoi colledion cyllidebol yn 2013/14.**

- **Y Rheolydd Sgriwtini i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd) ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cynlluniau gwella ffyrdd y cyfeiriwyd atynt yn ystod y drafodaeth.**

**3.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol a Chynigion Cyllideb Refeniw Terfynol ar gyfer 2013/14**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn nodi'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw yn 2013/14 ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol diweddaraf fel y cyflwynwyd nhw i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror.

Tynnodd yr Ymgynghorydd Ariannol Strategol sylw penodol at ran 4.2.5 yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r materion a oedd wedi codi ers cyflwyno'r cynigion drafft cychwynnol i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Ionawr ac y bu angen eu diwygio. Esboniodd natur y diwygiadau a'r rhesymau drostynt a dywedodd wrth y Pwyllgor mai'r amcan oedd llunio cyllideb strategol sy'n gydnaws â blaenoriaethau'r Cyngor.

Yn y drafodaeth lawn a gafwyd ar y wybodaeth a gyflwynwyd, cododd yr Aelodau y pwyntiau a amlinellir isod fel materion yr oeddent yn dymuno cael eglurhad pellach arnynt –

- Y ddarpariaeth ar gyfer tâl bonws ar y cyd sy'n rhan o'r pecyn tâl ar gyfer uwch reolwyr.
- Mynegwyd sylw a oedd yn herio'r ddadl a gyflwynwyd ar gyfer cynnydd o 5% yn y dreth Gyngor fel yr unig opsiwn er mwyn osgoi gorfod darganfod swm cyfatebol o arbedion yn y gwasanaethau. Awgrymwyd bod opsiwn i beidio â chyfrannu £500k ychwanegol i'r cronfeydd wrth gefn, a chafwyd trafodaeth fanwl ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol a chlustnodedig y Cyngor o ran eu digonolrwydd a'r amcanion a'r rhesymeg mewn perthynas â'u cadw ar lefel benodol. Awgrymwyd hefyd bod polisi'r Awdurdod mewn perthynas â chadw cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar lefel uwch yn un ceidwadol a bod angen ei sgriwtineiddio gan gofio bod y drafodaeth ynghylch cronfeydd wrth gefn yn cael ei hailadrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Cyfeirwyd at y llithriad ar y gronfa wrth gefn ar gyfer diswyddiadau a holwyd a oedd modd datblygu model achos busnes sy'n gallu rhoi mwy o sicrwydd bod gwariant ar ddiswyddiadau wedi ei alinio'n agosach gyda'r anghenion gwirioneddol.
- Gofynnwyd am eglurhad ar y broses ddiswyddo o ran y sail ar gyfer cymeradwyo diswyddiadau. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod polisi diswyddo'r Awdurdod yn gynaliadwy o ran parhad gwasanaethau ar lefel dderbyniol ac adennill costau cyn pen dwy flynedd.
  - Cyfeiriwyd yn benodol at leoliadau allsirol fel maes gyda gwariant uchel ac awgrymwyd y dylid canolbwyntio ymdrechion ar edrych ar ffyrdd o gydweithio er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn a gostwng y gwariant.

Ymatebodd y Swyddogion i'r pynciau a godwyd gydag esboniadau manwl. Mewn perthynas â'r cyfrifon wrth gefn, nodwyd bod yr Awdurdod wedi dwyn sylw at nifer o feysydd risg mewn perthynas â'r broses arfarnu swyddi, tâl cyfartal a thrawsnewid gwasanaethau y bydd angen eu rheoli ac y mae angen lefel ddigonol o arian wrth gefn ar eu cyfer.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i sicrhau bod copi o'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa swyddi y ceir gwared arnynt ar gael i Aelodau'r Pwyllgor.**

## 4 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) yn nodi'r saith newid y bwriedir eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor fel y cafodd ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2013.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) wrth y Pwyllgor mai bwriad y newidiadau i'r Cyfansoddiad oedd gwella'r ffordd y byddai'r Cyngor newydd yn gweithio ar ôl 2 Mai, 2013 a chymryd i ystyriaeth yn benodol y baich gwaith corfforaethol a'r gostyngiad yn nifer yr Aelodau. Aeth y Swyddog yn ei blaen i ymhelaethu'n gryno ar bob un o'r newidiadau a gynigir. Mae Arweinwyr y Grwpiau a'r Pwyllgor Gwaith wedi cefnogi'r newidiadau hynny. Ymgynghorwyd ar y newidiadau hefyd gydag Arweinwyr y Grwpiau ac ymgynghorwyd ar amryw ohonynt gyda'r holl Aelodau e.e. protocolau newydd a newidiadau i'r protocolau. Cyflwynir y cynigion i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2013.

Cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor y sylwadau isod ar y wybodaeth a gyflwynwyd –

- Tra'n cydnabod yr angen i ostwng nifer y pwyllgorau sgriwtini yn unol â'r gostyngiad yng nghyfanswm yr aelodau etholedig, pwysleisiwyd y dylid parhau I fedru cynnal y pwrpas, sef sgriwtini effeithiol, ac roedd teimlad nad yw'r adroddiad yn dangos yn ddigon manwl sut y byddai'r effeithiolrwydd hynny'n cael ei sicrhau.
- Roedd amheuon ynghylch a oedd dau bwyllgor sgriwtini yn ddigon i ddelio gyda'r baich gwaith heb orfod cwrdd yn amlach nag unwaith y chwarter. Byddai hynny, yn ei dro, yn gwrthbwyso unrhyw arbedion corfforaethol y llwyddwyd i'w gwneud trwy fireinio trefniadau sgriwtini.
- A ddylid ystyried rhoi mwy o gyfrifoldebau ar Is-Gadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini newydd i leihau'r baich ar y Cadeiryddion.

  Esboniodd y Prif Weithredwr y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion mewn perthynas â sgriwtini, sef creu'r system orau i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o 30 aelod etholedig a chreu etifeddiaeth gyfrifol ar gyfer y Cyngor newydd a fydd, yn y pen draw, yn dod i benderfyniad ynghylch effeithiolrwydd ac addasrwydd y cynigion yn seiliedig ar eu gweithredu. Bydd y ddau bwyllgor sgriwtini yn eistedd wrth ochr y tri bwrdd rhaglen a fydd yn cael eu sefydlu i yrru'r rhaglenni trawsnewid a bydd y rhain yn gweithredu mewn ysbryd o gydweithio a chydadeiladu rhwng aelodau a swyddogion a byddant yn mabwysiadu dull rhagweithiol. O'r herwydd, gyda sefydlu system o gydweithio, byrddau rhaglen a rheolaeth prosiect, bydd llai o bwysau ar y ddau bwyllgor sgriwtini.

- Roedd amheuon a oedd y gwelliannau a wnaed gan yr Awdurdod wedi eu gwreiddio'n ddigonol i gyfiawnhau symud tuag at fodel uchelgeisiol o fyrddau rhaglen a rheoli prosiect ac awgrymwyd y dylid rhoi sylw i lynu wrth y model sgriwtini cyfredol hyd nes y gall yr Awdurdod ddangos ei fod yn ddigon aeddfed i symud tuag at y system arfaethedig.
- Mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, o gofio ei statws lled-farnwrol, awgrymwyd na ddylid dewis ei aelodau yn bennaf ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac y dylai gynrychioli croestoriad daearyddol o'r Ynys. Yn wyneb y cyngor a roddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) mai rheolau cydbwysedd gwleidyddol ddylai gael y flaenoriaeth o ran sefydlu Aelodaeth, awgrymwyd y dylid nodi hynny'n benodol yn Niwygiad 3 o'r cynigion. Pwysleisiwyd hefyd y dylid egluro bod rhaid i Aelodau sy'n newydd i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion fynd ar hyfforddiant cyn cymryd rhan ar y Pwyllgor.
- Ceisiwyd a rhoddwyd eglurhad ynghylch cyfrifoldebau aelodau'r Pwyllgor Gwaith yng nghyd-destun materion sy'n codi yn eu wardiau etholiadol a hefyd o ran atebolrwydd mewn perthynas â'r camau a gymerir gan Aelodau a rôl swyddogion wrth roi cyngor.

  **Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

  **CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolydd Sgriwtini i gasglu unrhyw sylwadau ychwanegol gan yr Aelodau ar y newidiadau i'r Cyfansoddiad a chydgysylltu gyda'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth)**

**5 CYTUNDEB COMPACT YNYS MÔN A'R POLISI GWIRFODDOLI**

Cyflwynwyd i sylw'r pwyllgor, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Mawrth i'w gymeradwyo, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn cynnwys y compact diwygiedig rhwng yr Awdurdod a'r Sector Gwirfoddol ynghyd â Pholisi Gwirfoddoli drafft.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Rheolydd Sgriwtini i geisio a chasglu unrhyw sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y Compact a'r Polisi Gwirfoddoli erbyn 18 Mawrth.**

**6 ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2011/12**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, cyn iddo gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Mawrth, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) yn ymgorffori'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2011/12.

Cynigiodd yr Aelodau y dylid paratoi rhaglen hyfforddi ar ofynion y ddeddfwriaeth cydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cyngor newydd ar ôl Mai 2013. Ymatebodd y Rheolydd Polisi a Strategaethau trwy ddweud y byddai modd ymgorffori hyfforddiant ar faterion a gofynion cydraddoldeb yn y rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau newydd ar yr amod bod adnoddau ar gael, a gellid ei drefnu trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod rhaglen hyfforddi ar ofynion y ddeddfwriaeth cydraddoldebau a materion cysylltiedig yn cael ei threfnu ar gyfer Aelodau newydd y Cyngor ar ôl Mai 2013.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

- **Y Rheolydd Sgriwtini i geisio a chasglu unrhyw sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor am yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 18 Mawrth.**
- **Y Rheolydd Polisi a Strategaethau i wneud ymholiadau gyda Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru ynghylch darparu hyfforddiant ar ddeddfwriaeth Cydraddoldebau ar gyfer Aelodau newydd o'r Cyngor ar ôl Mai 2013.**

**7 RHEOLI RISG**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn ymgorffori'r Strategaeth Rheoli Risg; Canllawiau Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth yr Aelodau bod y gwaith yn parhau ar reoli risgiau; fodd bynnag, roedd Strategaeth Rheoli Risg wedi ei llunio a'i sefydlu ac mae'r risgiau sydd wedi eu nodi a'u cynnwys ar y Gofrestr yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n barhaus gan y Tîm Uwch Arweinyddiaeth. Y nod yw gwreiddio trefniadau rheoli risg o fewn yr Awdurdod fel rhan o'r rhaglen drawsnewid. Er gwaethaf bod llawer o gynnydd wedi ei wneud yn y maes hwn mae angen gwneud mwy i sicrhau y gellir datblygu diwylliant risg cadarn yn yr Awdurdod ond gan beidio â bod yn rhy wrth-risg.

Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r adroddiad ac er eu bod yn adnabod y cynnydd a wnaed yn y maes rheoli risg o ran creu a sefydlu cofrestr Risg Gorfforaethol, roeddynt yn credu bod y cynnydd yn annigonol oherwydd nad oedd y gofrestr yn cynnwys unrhyw wybodaeth am fodolaeth mesurau rheoli ychwanegol neu atodlen adolygu y gellid ei defnyddio i reoli'r risgiau a nodwyd. Roedd hyn yn fater o bryder iddynt.

Cydnabu'r Dirprwy Brif Weithredwr y pwynt a wnaed a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau bod y risgiau a nodir yn faterion sy'n cael sylw. Mae angen adlewyrchu hynny yn y gofrestr a chwblhau'r mesurau rheoli a bydd y wybodaeth honno ar gael i'r Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a chofnodi barn y Pwyllgor Sgriwtini, sef er ei fod yn derbyn bod cynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â materion rheoli risg, nid yw graddfa'r cynnydd a wnaed yn ddigonol nac yn amserol ac, o'r herwydd mae'n argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn gweithredu ar y mater hwn ar fyrder.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI:**

- **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i drefnu i'r Pwyllgor Sgriwtini gael Cofrestr Risg Gorfforaethol gyflawn yn ei gyfarfod nesaf, gan gynnwys mesurau rheoli ychwanegol ac atodlen adolygu benodol.**
- **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i gymryd camau i gyfleu sylwadau'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd gyda materion Rheoli Risg i'r Pwyllgor Gwaith.**

**Y Cynghorydd Selwyn Williams**
**Cadeirydd**